Cylchlythyr Ysgolion Diogelwch ar y Ffyrdd

Sir Fynwy Haf 2018

Croeso i rifyn yr haf o gylchlythyr diogelwch ffyrdd Sir Fynwy i ysgolion lle'r ydym yn gobeithio rhoi gwybodaeth i chi am y cyfleoedd gorau a dod i'r ysgol yn ogystal ag amlygu effaith rhaglenni sy'n rhedeg yn eich ysgolion!

Mae croeso i chi roi adborth i ni a'r hyn yr hoffech i ni ei roi i rifynnau yn y dyfodol!

Geraint Roberts – Swyddog Diogelwch y Ffyrdd

Mae Kerbcraft yn rhaglen sy'n ymroddedig i sicrhau bod pob plentyn yn dysgu sut i fod yn ddiogel wrth groesi'r ffordd, gan ddefnyddio dulliau hyfforddi ymarferol i wella sgiliau wrth ymyl y palmant a chodi ymwybyddiaeth o draffig.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon gwelwyd 714 o blant yn cymryd rhan yn y rhaglen Kerbcraft mewn 23 o ysgolion ledled Sir Fynwy. Yn y llun yma, mae plant blwyddyn 1 o Ysgol Gynradd Thornwell, yn trafod Sut i Sefyll a Ble i Edrych pan ddônt i gyffordd, pan maent allan am dro.

Lluniodd plant ym mlwyddyn 2 Ysgol Gynradd Gwndy daflenni Diogelwch ar y Ffyrdd ar ôl iddynt gwblhau eu rhaglen.

<u>Diogelwch ar y ffyrdd a chadw'n actif!</u>

Yr haf hwn, mewn partneriaeth â datblygu chwaraeon Sir Fynwy, treialwyd y defnydd o 'Fitbits' sy'n cyfrif y camau a wnaed gan aelod o staff wrth gynnal ein rhaglen Kerbcraft. Ar gyfartaledd, cwblhaodd y plant 53,500 o gamau a chyfartaledd o 5 milltir i bob plentyn yn ystod y 10 wythnos; hanner milltir y sesiwn ar gyfartaledd. Ar y cyfan, cerddodd y staff 374,399 o gamau'r tymor hwn gan deithio 187 milltir rhyngddynt, wrth ddysgu sgiliau diogelwch y ffyrdd hanfodol.

<u>Beicio Diogel Sir Fynwy</u>

Y tymor hwn, gwelsom 5 ysgol a thros 90 o blant yn cymryd rhan yn eu prawf beicio diogel ar iard yr ysgol gyda'r holl blant yn llwyddo, gan ddangos reidio beic cymwys. Diolch yn fawr i'r holl staff addysgu a roddodd o'u hamser i hyfforddi'r disgyblion i lefel mor uchel.

'Bikeability' Sir Fynwy

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi ymrwymo i sicrhau bod pob defnyddiwr ffordd yn ddiogel. Gyda Sir Fynwy yn ganolog i'r gymuned feicio yng Nghymru, rydym yn ymroddedig i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddysgu sgiliau beicio sylfaenol.

Y tymor hwn, cwblhaodd Aelodau o staff o'r Gwasanaeth Ieuenctid, Addysg Awyr Agored a gwirfoddolwr o Glwb Beicio Cas-gwent eu hyfforddiant mewn safonau cenedlaethol. Bydd y 6 hyfforddwr nawr yn cynnal hyfforddiant beicio ar yr iard a'r ffordd fawr gyda phlant ym mlwyddyn 5 ar draws Sir Fynwy o dan ein rhaglen newydd sbon 'Bikeability' Sir Fynwy! Cadwch lygad allan am fwy o wybodaeth yn y flwyddyn newydd!

Swyddogion Iau Diogelwch ar y Ffyrdd

Mae'r tymor hwn wedi gweld Swyddogion Iau Diogelwch y Ffyrdd yn gweithio'n galed ar yr ymgyrch helmed #keepalidonit. Cymerodd Raglan CIW, Goytre Fawr, Rogiet ac Osbaston V.C ran mewn amrywiaeth o brosiectau diogelwch helmed beic a oedd yn cynnwys sesiynau ar pam ei fod mor bwysig i wisgo helmed, cynnal arolwg ar bwy sy'n gwisgo helmed, cystadlaethau dylunio helmed a chystadleuaeth hunlun Twitter! Mae'r adborth wedi bod yn wych gyda rhieni a phlant fel ei gilydd yn cymryd rhan! Cafodd gwobrau am gystadlaethau eu rhoi gan Gateway Cycles yn y Fenni, Morrisons y Fenni a Datblygu Chwaraeon Sir Fynwy.

Diwrnod Beicio i'r Ysgol Rogiet

Ar ddydd Mawrth 10fed Gorffennaf bu Ysgol Rogiet yn cynnal diwrnod beicio neu sgwtio i'r ysgol lle gofynnwyd i bob plentyn a allai'n ddiogel sgwtio ar eu sgwteri neu reidio ar eu beiciau i'r ysgol. Cawsom ymateb anhygoel gyda 123 o blant yn cymryd rhan. Rydym hefyd wedi cynnal cystadleuaeth hunlun gyda'r hashnod #putalidonit i annog plant i wisgo helmed bob amser a bod helmedau'n cŵl. Yn Ysgol Rogiet rydym yn awyddus iawn i helpu'r amgylchedd drwy ddefnyddio llai o deithiau mewn ceir a hefyd i helpu plant i fod yn fwy heini drwy feicio a sgwtio mwy. Yn ystod y dydd cawsom weithgareddau a gemau beicio cyffrous ar yr iard gyda Naomi Johnston o Feicio Cymru.

Diolch yn fawr iawn o'r tîm i bawb a gymerodd ran yn unrhyw un o'n rhaglenni ac ymgyrchoedd diogelwch ar y ffyrdd! Rydym eisoes yn edrych ymlaen at y flwyddyn academaidd. Welwn ni chi i gyd ym mis Medi!

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw rai o'r rhaglenni a'r cyfleoedd hyfforddi ar gyfer eich athrawon, gwirfoddolwyr a phlant, cysylltwch â roadsafety@monmouthshire.gov.uk. Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf i ni ar eich rhaglenni ysgol drwy ein cyfrif Twitter **@Mon_roadsafety**